# PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

**(Port Talbot Civic Centre / Remotely - Hybrid)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 24 Tachwedd 2022** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd J.Henton** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, M.Crowley, N.Goldup-John, C.Lewis, R.Mizen, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, D.Whitelock, S.Harris a/ac S.K.Hunt |
| **Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:** | M.Caddick |
| **Swyddogion sy'n Bresennol** | H.Lervy, C.Millis, Thomas, A.Thomas, PWalker, R.Crowhurst and W.John and A.Thomas |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr J.Hurley and N.Jenkins |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, cytunwyd bod y Cynghorydd Henton yn cadeirio'r cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar Eitemau 7, 8 a 9 o Agenda Bwrdd y Cabinet.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Datganwyd buddiannau gan:

Y Cyng. M Crowley Eitem 7 (Bwrdd y Cabinet), Personol, heb fod yn rhagfarnol

Marie Caddick Eitem 7 (Bwrdd y Cabinet), Personol, Rhagfarnol.

Y Cynghorydd S. Hunt Eitem 8 (Bwrdd y Cabinet), Personol, heb fod yn rhagfarnol.

Y Cyng. S Harris Eitem Harris 8 (Bwrdd y Cabinet), Personol, Rhagfarnol

## 3. CRAFFU CYN PENDERFYNU

### Ysgolion Band C

Cadarnhaodd swyddogion fod yr adroddiad yn amlinellu ac yn argymell y gyfran nesaf o ysgolion y mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol arnynt. Nid oes gofyniad i ymgynghori ar y cam hwn. Gobaith yr adroddiad yw sicrhau buddsoddiad amlinellol o Raglen Ariannu Cyfalaf Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nodwyd, os caiff hyn ei gymeradwyo, y bydd angen cyflwyno achos busnes amlinellol i Lywodraeth Cymru ar gyfer pob cynnig er mwyn sicrhau cyllid.

Gofynnodd yr aelodau a allai swyddogion roi eglurder ar y meini prawf ar gyfer dewis ysgolion a pha bwysau a roddir i rai agweddau h.y. niferoedd disgyblion, yr iaith Gymraeg etc. er mwyn i aelodau gael eu hysbysu ynghylch y broses.

Cadarnhaodd swyddogion mai nod Rhaglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru yw lleihau ôl-groniad o waith cynnal a chadw adeiladau dros gyfnod o amser. Amlinellodd swyddogion sut mae'r cyfarwyddiaethau Addysg a'r Amgylchedd yn gweithio gyda'i gilydd i nodi ysgolion a all gyflwyno materion heriol o ran parhad busnes yn y dyfodol a sut y cânt eu blaenoriaethu. Ni roddir blaenoriaeth benodol i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae’r Gymraeg wedi’i hystyried yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd yn ddiweddar ac os yw hwn am gael ei gyflawni’n llwyddiannus, bydd angen cyllid cyfalaf sylweddol i gyflawni ei uchelgeisiau.

Holodd yr Aelodau a oedd swyddogion yn rhagweld unrhyw effaith ar drafodaethau cyllid â Llywodraeth Cymru ynghylch y posibilrwydd o oedi neu benderfyniad ar ddefnyddio cyllid presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ysgol newydd, y pwll ac uned anghenion dysgu ychwanegol yng Nghwm Tawe?

Cadarnhaodd swyddogion fod y swm o arian a sicrhawyd ar hyn o bryd ar gyfer ail-fuddsoddi yng Nghymoedd Tawe yn £22.5miliwn, a bod arian yn cael ei sicrhau ar gyfer prosiect penodol. Os nad yw'r prosiect yn mynd rhagddo, yna does dim modd ei ddefnyddio. Mae pryder cyffredinol o ran y gost adeiladu a gallu cyffredinol yr awdurdod lleol i ariannu o ran sefyllfa ei gyllideb. Nodwyd ei bod yn debygol y gall Llywodraeth Cymru ystyried ariannu llai o gynlluniau oherwydd y costau adeiladu uwch. Dywedodd swyddogion y byddai angen i gynlluniau yn y dyfodol fod yn destun dadl economaidd gref er mwyn cael y cyfle gorau posib o sicrhau cyllid.

Mynegodd yr aelodau bryderon yn benodol mewn perthynas â nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer Ysgol Llangatwg ac a yw nifer y lleoedd yn ddigonol ar gyfer cynllunio yn y dyfodol? Mynegwyd pryderon hefyd am y cynigion amlinellol i ddymchwel y rhan o'r ysgol a adeiladwyd ym 1929 a'r posibilrwydd o golli'r pwll nofio a ddefnyddir gan y gymuned.

Cadarnhaodd swyddogion fod lleoedd anghenion dysgu ychwanegol yn nifer o'r cynigion. At hynny, bydd adroddiad ar yr eitem hon wrth ystyried cyllideb y flwyddyn nesaf. O ran manylion unrhyw gynigion, ymgynghorir â'r cymunedau perthnasol a rhoddir ystyriaeth ynglŷn â'r ffordd orau o gyflawni'r cynigion o fewn y gymuned. Nid oes cynigion pendant ar gyfer datblygu ar hyn o bryd.

Yn dilyn craffu roedd yr Aelodau’n gefnogol o'r argymhelliad i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**Adroddiad Arfarnu Opsiynau Cefn Coed**

Rhoddodd aelod lleol yr ardal drosolwg byr o hanes y lofa a rhywfaint o wybodaeth am gynnwys yr amgueddfa.

Hysbyswyd yr aelodau y byddai strategaeth wedi'i diweddaru yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor yn y gwanwyn.

Nododd yr aelodau’r gwariant o £5.2m a amlinellwyd ym mhrif gynllun 2019 a chynigiwyd grant o £2.7m. Holodd yr aelodau pa dystiolaeth neu strategaeth oedd ar gael i gefnogi'r gwahaniaeth mewn cyllid. Dywedodd y swyddogion mai arian o Gronfa Dreftadaeth y Loteri fyddai'r man cychwyn gyda ffynonellau cyllid pellach i'w hystyried hefyd. Pe bai'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo, byddai'n gweithio gydag ymgynghorydd i ystyried hyn yn fanwl.

Yn dilyn craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan y Cabinet.

**Creu partneriaeth ranbarthol ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng ngorllewin Cymru**

Dywedodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru yn annog ymagwedd ranbarthol gydgysylltiedig at chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Nododd swyddogion y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno a fydd yn amlinellu sut y byddai'r cwmni'n gweithredu'n gyfreithiol ac yn ariannol a bod y Cyngor Chwaraeon yn fodlon â'r dull gweithredu.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y byddai chwaraeon llawr gwlad yn cael eu cynnwys fel rhan o'r dull partneriaeth. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r bartneriaeth yn darparu cymorth i ddatblygu ar lawr gwlad.

O ran ariannu'r bartneriaeth, mae'r Cyngor Chwaraeon wedi cynnig sicrwydd y bydd penodiad uwch-swyddog ar gyfer y bartneriaeth a chymorth gweinyddol yn cael ei ariannu'n llawn gan Chwaraeon Cymru ac ni fydd yn cael ei dynnu o unrhyw arian grant a dderbynnir gan CBSCNPT.

Gofynnodd yr aelodau am gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sut y gall clybiau chwaraeon wneud cysylltiadau a chymryd rhan yn y bartneriaeth unwaith y bydd wedi'i ffurfio.

Yn dilyn craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhelliad i'w ystyried gan y Cabinet.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH 2022/23

Nododd yr aelodau'r eitem hon fel un er gwybodaeth.

## 5. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**